## Gweddi o'r Gwadu

O Arglwydd Iesu Grist, edrych arnom gyda'r llygaid a edrychodd ar Pedr, fel y cawn ninnau, gyda Pedr, edifarhau, a thrwy dy gariad gael maddeuant ac adferiad; er mwyn dy drugaredd. Amen.

***Yn seiliedig ar Lancelot Andrews ac Ivor Thomas Rees***

## Y Disgybl Annwyl

**Darllen Ioan 21:20–25**

Ni allwn ond cael ein cyfareddu gan y darlun o'r 'disgybl annwyl'. Yr oedd yn meddwl y byd o Iesu, a gwelwyd hynny adeg y Swper Olaf. Yn awr, dilynai'r 'disgybl annwyl' Iesu a Phedr ar y traeth, ac mae'n amlwg na all Pedr ddeall pam ei fod yn eu canlyn. A gofynnodd Pedr i Iesu: 'Beth am hwn?' Etyb Iesu gwestiwn busneslyd Pedr yn reit siarp gan ddweud nad yw hynny o ddim busnes iddo. Oherwydd ym meddwl Iesu roedd digon o waith i Pedr a'r 'disgybl annwyl' (sef disgrifiad Iesu o Ioan), yn y Deyrnas. Gall un gael ei alw i waith bugeiliol pwysig (adnodau 15–17) ac i goron y merthyr (adnodau 18–19), a'r llall i fywyd o faith wasanaeth (gweler adnod 23) ac i lafurio fel hanesydd a diwinydd gan greu Efengyl hanfodol i'r Eglwys Gristnogol. 'Hwn yw'r disgybl sydd yn tystiolaethu am y pethau hyn ac sydd wedi ysgrifennu'r pethau hyn. Ac fe wyddom ni fod ei dystiolaeth ef yn wir.'

Y mae'n amlwg fod y 'disgybl annwyl' yn gymeriad o gig a gwaed, ac wedi gweld y cyfan â'i lygaid ei hun. Cyfeiliorna Rudolf Bultmann, yr ysgolhaig enwog, wrth nodi mai symbol o Gristnogaeth y Cenedl-ddyn yw'r 'disgybl annwyl'. Cofiaf ysgolhaig gwych arall o'r enw Barnabas Lindars yn dweud yn Lerpwl mai'r hyn oedd gan y 'disgybl annwyl' yn ei feddwl oedd y byddai pawb a ddarllenai'r Efengyl a luniodd yn barod i ddilyn Iesu, a dod yn wir ddisgyblion eu hunain. Yn aml iawn gall disgyblion Iesu anghytuno ynghylch hanfodion y Ffydd; ond i Iesu nid oes dim yn bwysicach na bod Pedr ac Ioan yn cydweithio er daioni'r Deyrnas. Ac y mae hynny'n wir i ninnau.

Rhaid i ni ddarllen yn gyson 'bennod yr Uno' (Ioan 17) a hefyd yr alwad i fod yn gytûn fel praidd y Bugail Da (Ioan 10), penodau oedd mor bwysig i Grist ac i'r 'disgybl annwyl'.

***D. Ben Rees***